
Canllaw arfer da i helpu atal camddefnyddio rhifau a is-ddyrennir ac a aseindir

Canllaw i ddarparwyr gwasanaethau telathrebu

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 15 Tachwedd 2022

Cynnwys

Adran

| | |
|------------------|---|
| 1. Trosolwg..... | 3 |
|------------------|---|

1. Trosolwg

Mae diogelu defnyddwyr rhag niwed yn flaenoriaeth i Ofcom. Rydym yn parhau i bryderu am broblem barhaus sgamiau a hwylusir gan alwadau ffôn a negeseuon testun.

Nododd ein hymchwil gyda defnyddwyr yn 2022 fod problem galwadau ffôn a negeseuon testun sgam yn un gyffredin, gyda thros dri chwarter o ddefnyddwyr ffôn yn y DU yn profi galwadau / negeseuon amheus. ¹ At hynny, dros gyfnod tri mis ein harolwg, amcangyfrifwyd y gallai tua 700,000 o bobl fod wedi dilyn cyfarwyddiadau'r sgamwyr mewn neges neu alwad, gan godi'r perygl o golled ariannol a gofid emosiynol pe bai'r ymgais i sgamio'n llwyddiannus. ² Hyd yn oed pan na chânt eu twyllo gan sgamiwr, gall pobl sy'n derbyn ymgeisiau i sgamio brofi annifyrrwch a gofid. Mae sgamiau hefyd yn codi costau ar yr economi ehangach, gan gynnwys gwariant gan fusnesau cyfreithlon i gefnogi'r cwsmeriaid hynny sy'n dioddef twyll.

Tacteg gyffredin yw i sgamwyr gysylltu â phobl gan ddefnyddio galwad, gan honni'n aml eu bod o sefydliadau dilys er mwyn twyllo eu dioddefwr i ddarparu manylion personol neu wneud taliad. Mae defnyddio rhif ffôn dilys yn gwneud i'r sgam edrych yn fwy dilys.

Mae Ofcom yn gyfrifol am weinyddu rhifau ffôn y DU o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Dyrennir rhifau ffôn gan Ofcom i ddarparwyr telathrebu, a all wedyn drosglwyddo'r rhifau i fusnesau neu unigolion eraill. Mae gennym reolau ar waith i amlinellu cyfrifoldebau'r rhai sy'n trosglwyddo ac yn defnyddio rhifau.³ Fodd bynnag, rydym wedi nodi anghysondebau a bylchau yn yr arferion presennol, yn enwedig yn y gwiriadau y mae darparwyr yn eu gwneud ar gwsmeriaid sy'n gofyn am rifau a'u hymateb pan fyddant yn cael gwybod am y defnydd o'r rhifau hynny ar gyfer sgamiau.

Ym mis Chwefror 2022, bu i ni ymgynghori ar ganllaw arfer da arfaethedig (y Canllaw). Mae'r canllaw hwn yn nodi'r camau rydym yn disgwyl i ddarparwyr eu cymryd i helpu i atal rhifau dilys rhag cael eu camddefnyddio, gan gynnwys i hwyluso sgamiau. Mae'n cynnig mwy o eglurder i ddarparwyr o ran sut rydym yn disgwyl iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau presennol o dan ein rheolau. Pan fydd darparwyr wedi rhoi'r mesurau hyn ar waith, bydd yn anoddach i bobl sy'n bwriadu camddefnyddio rhifau gael mynediad atynt, gan helpu i leihau niwed i ddefnyddwyr o ganlyniad i alwadau sgam. Wrth ymchwilio i achosion o gamddefnyddio rhifau, byddem yn disgwyl cymryd y Canllaw i ystyriaeth wrth ystyried a yw camau gorfodi'n briodol ai beidio.

Mae'r ddogfen hon yn nodi:

- ein hystyriaeth o ymatebion i'r ymgynghoriad; a
- fersiwn terfynol o'r Canllaw.

¹ [Ymchwil Defnyddwyr CLI a Sgamiau Ofcom](#) 2022, Tabl 211 Yn y tri mis cyn mis Awst 2022, dwedodd dros dri chwarter o'r rhai sy'n defnyddio eu llinell dir a/neu ffôn symudol i wneud/derbyn galwadau (78%) iddynt dderbyn o leiaf un alwad a/neu neges destun a/neu neges ap amheus ar eu llinell dir a/neu ffôn symudol.

² [Ymchwil Defnyddwyr CLI a Sgamiau Ofcom](#) 2022, Amcangyfrif poblogaeth: 700k (cyfwng hyder: +/- 300k) Nifer yr Oedolion yn y DU 16+ oed a dderbyniodd neges amheus dwy neges destun, galwad fyw neu ag negeseua ac a wnaeth yr hyn y cyfarwyddwyd iddynt gan y neges/person (e.e. clicio ar ddolen neu ddarparu manylion banc dros y ffôn).

³ Amod Cyffredinol B1 yr [Amodau Hawliau Cyffredinol](#).

Beth rydym wedi penderfynu

Rydym wedi penderfynu cyflwyno'r canllaw arfer da, sy'n nodi'r camau yr ydym yn disgwyl i ddarparwyr eu cymryd i helpu i atal rhifau dilys rhag cael eu camddefnyddio. Yn benodol, rydym yn disgwyl i ddarparwyr:

- gyflawni set gadarn o wiriadau diwydrwydd dyladwy cyn is-ddyrannu neu aseinio rhifau;
- cael dull o nodi lle mae mwy o risg y bydd rhifau'n cael eu camddefnyddio;
- rhoi mesurau rheoli cytundebol ar waith sy'n galluogi'r darparwr i gyflawni ei rwymedigaethau rheoleiddio;
- cadw lefel y risg a berir gan gwsmer busnes yn destun adolygu parhaus drwy fonitro ar gyfer y posibilrwydd o gamddefnyddio rhifau; a
- chael proses briodol ar gyfer ymateb i adroddiadau o gamddefnyddio posib.

Bwriedir i'r Canllaw helpu darparwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau presennol o dan ein rheolau (Amod Cyffredinol B1). Rydym wedi gwneud rhai mân ddiwygiadau i'r Canllaw i adlewyrchu awgrymiadau a wnaed wrth ymateb i'n hymgyngoriad. Gan fod y Canllaw yn ymwneud ag Amodau Cyffredinol sydd eisoes yn bodoli, mae'n dod i rym ar unwaith.